GIG

*Sefydliad Cenedlaethol*
*dros Ragoriaeth Glinigol*

# Llawdriniaeth endosgopig is-ffasgol ar wythiennau rhydyllol (SEPS)

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Mai 2004

**Llawdriniaeth endosgopig is-ffasgol ar wythiennau rhydyllol (SEPS)**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Mai 2004

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch rif cyfeirnod N0576. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0575. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau hefyd o Linell Ymateb y GIG, rhif cyfeirnod N0574.

## Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-640-2

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol
Mai 2004
Cysodwyd gan Icon Design, Eton
Argreffir yn ôl y Galw

© Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Mai 2004. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir ei atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r wybodaeth hon | 4 |
| Ynglŷn â llawdriniaeth endosgopig is-ffasgol ar wythiennau rhydyllol | 5 |
| Beth y mae NICE wedi'i benderfynu? | 10 |
| Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi | 11 |
| Gwybodaeth bellach | 12 |

# Ynglŷn â’r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddosbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn llawdriniaeth endosgopig is-ffasgol ar wythiennau rhydyllol. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar p’un a yw llawdriniaeth endosgopig is-ffasgol ar wythiennau rhydyllol yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w defnyddio’n rheolaidd.

Er mwyn llunio’r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau ar ddiogelwch llawdriniaeth endosgopig is-ffasgol ar wythiennau rhydyllol ac o ba mor dda y mae’n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy’n cynrychioli gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a’r cleifion a’r gofalwyr y bydd yr arweiniad hwn yn effeithio arnynt.

Mae’r arweiniad hwn yn rhan o’r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar ‘ymyriadau’ (gweler ‘Gwybodaeth bellach’ ar dudalen 10).

## Ynglŷn â â llawdriniaeth endosgopig is-ffasgol ar wythiennau rhydyllol

Mae wlser gwythiennol yn friw agored a gaiff ei achosi gan lif gwaed gwael yn y pibellau sy'n cario gwaed oddi wrth y croen. Mae hyn yn digwydd yn rhan isaf y goes fel arfer. Os bydd rhywun yn cael toriad neu agoriad bach yn y croen yn y fan honno, ni fydd yn gwella'n iawn a bydd yn datblygu'n friw agored.

Bydd y broblem gyda'r llif gwaed yn digwydd am nad yw un neu fwy o'r gwythiennau yn y gwaed yn gweithio'n gywir. Fel arfer, y gwythiennau yw'r pibellau gwaed sy'n cario'r gwaed yn ôl i'r galon. Yn y coesau, rhaid i'r gwaed lifo yn erbyn disgyrchiant. Er mwyn ei rwystro rhag llifo yn ôl, ceir 'gatiau' a elwir yn falfiau yn y gwythiennau sy'n agor un ffordd yn unig – unwaith y bydd gwaed wedi cael ei wthio i fyny drwy'r falf, ni all lifo yn ôl yr un ffordd.

Weithiau, bydd y falfiau yn gwanhau felly byddant yn gadael i'r gwaed lifo yn ôl. O ganlyniad i hyn, ni fydd llif y gwaed mor gryf ag y dylai fod a bydd gwaed yn dueddol o gasglu yn y gwythiennau ar yr wyneb. Gall hyn achosi gwythiennau chwyddedig. A phan fydd llif y gwaed yn wan iawn, gall wlserau gwythiennol ddatblygu.

Gwythïen rydyllol yw pibell waed sy'n cysylltu gwythïen ar yr wyneb â gwythïen ddyfnach. Os na fydd gwaed yn rhedeg drwy'r gwythiennau

rhydyllol yn gywir, bydd yn dechrau cronni yn y gwythiennau ar yr wyneb. Gellir defnyddio'r weithdrefn yr edrychodd NICE arni, a elwir yn llawdriniaeth endosgopig is-ffasgol ar wythiennau rhydyllol (SEPS) ar gyfer pobl sydd ag wlser gwythiennol ar ran isaf y goes y credir iddo gael ei achosi am nad yw gwaed yn cael ei wthio'n gywir drwy'r gwythiennau rhydyllol yng nghroth y goes. Gellir ei ddefnyddio hefyd ar gyfer pobl sydd wedi cael wlser sydd wedi gwella. Yn bennaf, defnyddir SEPS pan na fydd mesurau eraill megis codi'r goes neu roi pwysau arni i wella llif y gwaed, neu ddefnyddio meddyginiaethau i helpu i 'deneuo'r' gwaed wedi gweithio.

Cyn i rywun cael llawdriniaeth endosgopig is-ffasgol ar wythiennau rhydyllol, cânt yr hyn a elwir yn sgan deublyg ar y pibellau gwaed yn eu coes i weld pa wythiennau sy'n achosi'r broblem.

Ar ddechrau'r weithdrefn, caiff y gwaed ei ddraenio o'r goes. Gwneir toriad bach yng nghroth y goes, a bydd y llawfeddyg yn rhoi bal_n fflat arbennig yng nghyhyr croth y goes fel ei fod yn y gofod cul rhwng y cyhyr a gorchudd y cyhyr. Yna, caiff y balŵn ei chwyddo er mwyn lledu'r gofod hwn – mae hyn yn ei gwneud yn haws i'r llawfeddyg gyrraedd y gwythiennau rhydyllol. Rhoddir nwy carbon deuocsid yn y rhan honno o'r goes hefyd ac mae hyn yn ei gwneud yn haws i'r llawfeddyg weithio ar y gwythiennau. Mae'r gwythiennau rhydyllol yn

gorwedd ar draws y gofod a wnaed, felly bydd y llawfeddyg yn defnyddio clip i'w cau neu'n defnyddio darn arbennig o offer a elwir yn geulad uwchsain (neu'n fflaim harmonig) i'w cynhesu a'u cau. Pa bynnag ddull a ddefnyddir, y canlyniad yw na all gwaed fynd drwy'r wythïen o gwbl, felly ni all gronni ar arwynebedd y croen.

Y ffordd arall o wneud y llawdriniaeth hon yw gwneud toriad mwy yng nghroth y goes i gyrraedd y gwythiennau rhydyllol. Gelwir hyn yn llawdriniaeth is-ffasgol agored ar wythiennau rhydyllol.

## Pa mor dda y mae'n gweithio

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Yr oedd rhai o'r astudiaethau yr edrychodd NICE arnynt yn cymharu pa mor dda yr oedd y weithdrefn newydd yn gweithio gyda pa mor dda yr oedd y llawdriniaeth agored yn gweithio. I wneud hyn, edrychwyd a oedd yr wlser wedi gwella ar ôl y llawdriniaeth a pha un a gafodd y claf wlser arall yn ddiweddarach.

Gyda'r weithdrefn newydd hon:

- gwellodd yr wlserau mewn 17 i 18 o gleifion allan o 20

- datblygodd 2 allan o 17 o gleifion mewn un astudiaeth a 5 allan o 18 o gleifion mewn astudiaeth arall wlser arall.

Gyda'r llawdriniaeth agored:
- gwellodd yr wlserau ym mhob un o'r cleifion

- datblygodd 4 allan o 18 o gleifion mewn un astudiaeth a 13 allan o 19 o gleifion mewn astudiaeth arall wlser arall.

Roedd yn rhaid trin canlyniadau'r astudiaethau hyn yn ofalus gan nad oedd yr holl wybodaeth yn glir yn yr adroddiadau ac nid oedd rhai yn cynnwys gwybodaeth am yr hyn a ddigwyddodd i bob claf a ymunodd yn yr astudiaeth.

## Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Roedd yr arbenigwyr o'r farn nad oedd digon o astudiaethau wedi cael eu cynnal i ddangos bod y weithdrefn yn gweithio'n dda. Roeddent hefyd o'r farn nad oedd yn glir pa fath o broblem wythiennol fyddai fwyaf addas ar gyfer y weithdrefn.

# Risgiau a phroblemau posibl

## Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Dangosodd dwy o'r astudiaethau bod cleifion a oedd wedi cael y weithdrefn newydd yn llawer llai tebygol o gael haint yn y briw o'u cymharu â chleifion a oedd wedi cael y llawdriniaeth agored (y briw yw'r agoriad a gaiff ei wneud yng nghroth y goes gan y llawfeddyg). Yn un o'r astudiaethau, ni chafodd yr un o'r cleifion a gafodd y weithdrefn newydd haint, a chafodd ychydig dros hanner y cleifion a gafodd y llawdriniaeth agored haint wedyn. Yn yr astudiaeth arall, cafodd 2 allan o 27 o gleifion a gafodd y weithdrefn

newydd haint, a chafodd 13 o'r 29 o gleifion a gafodd y llawdriniaeth agored haint.

Yr oedd y problemau eraill gyda'r weithdrefn newydd yn cynnwys niwed i'r nerfau a thrombosis gwythïen ddofn (sef gwaed wedi ceulo mewn gwythïen sy'n gorwedd yn ddwfn yn y goes). Effeithiodd niwed i'r nerf ar 0 claf mewn un astudiaeth a 2 allan o 30 o gleifion mewn astudiaeth arall. Amrywiodd thrombosis gwythïen ddofn o 0 claf mewn un astudiaeth i 21 o achosion mewn 146 o goesau a gafodd eu trin mewn astudiaeth arall.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Cytunodd yr arbenigwyr mai'r prif broblemau oedd y rhai a nodwyd yn yr astudiaethau: haint i'r briw, niwed i'r nerf a thrombosis gwythïen ddofn. Un broblem arall bosibl oedd y gallai ch_ydd llawn gwaed ffurfio yn yr ardal (gelwir hyn yn haematoma).

## Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?

Mae NICE wedi penderfynu, os yw meddyg am gynnal llawdriniaeth endosgopig is-ffasgol ar wythiennau rhydyllol, y dylai sicrhau bod y claf yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu a bod ansicrwydd o hyd am ddiogelwch y weithdrefn a pha mor dda y mae'n gweithio. Dylid sicrhau bod trefniadau arbennig ar waith fel mai dim ond ar ôl cael y drafodaeth hon y mae'r claf yn cytuno (rhoi caniatâd) i gael y weithdrefn.

### Sylwadau eraill gan NICE

Mae NICE wedi dweud hefyd nad yw'n glir eto pa grwpiau o gleifion a allai fod yn addas ar gyfer y weithdrefn newydd hon. Dylai meddygon fod yn ofalus wrth benderfynu a ddylid ei chynnig i glaf ai peidio fel nad ydynt yn ei chynnig i glaf y byddai'n debygol o fod yn anaddas ar ei chyfer.

## Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai fod eich meddyg wedi cynnig llawdriniaeth endosgopig is-ffasgol ar wythiennau rhydyllol i chi. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod ansicrwydd am fanteision a risgiau llawdriniaeth endosgopig is-ffasgol ar wythiennau rhydyllol y mae angen i chi eu deall cyn cytuno i'w chael. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai fod rhai o'r manteision a'r risgiau hyn wedi'u disgrifio uchod.

# Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar lawdriniaeth endosgopig is-ffasgol ar wythiennau rhydyllol ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG059guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0574. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am wlserau a gwythiennau chwyddedig, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da, ffoniwch 0845 46 47, neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk).

Dyddiad: Mai 2004